



## **PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 24 Ionawr 2019 am 1.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber    Y Cyngorydd R Bevan  
Y Cyngorydd A Crimmings    Y Cyngorydd G Hopkins  
Y Cyngorydd M Norris    Y Cyngorydd J Rosser  
Y Cyngorydd R Lewis

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr  
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol  
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd  
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.  
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol  
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio  
Mr A Wilkins, Pennaeth Materion Cyfreithiol – Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol  
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant James, Pennaeth Adfywio a Ffyniant  
Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant  
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant  
Mr D Powell, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Dylunio Corfforaethol a Chynnal a Chadw  
Ms A Richards, Pennaeth Ysgolion yr 21ain Garrif

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

Y Cyngorydd G Caple  
Y Cyngorydd G Thomas  
Y Cyngorydd J Bonetto  
Y Cyngorydd S Bradwick  
Y Cyngorydd L Hooper

## **104    DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:-

Eitem 5 ar yr agenda – Cynnig i aildrefnu'r ddarpariaeth o ran Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf

1. Datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol, R. Bevan y buddiant personol canlynol mewn perthynas â'r eitem – "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
2. Datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick y buddiant personol canlynol mewn perthynas â'r eitem – "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Caradog ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."
3. Datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple y buddiant personol canlynol mewn perthynas â'r eitem – "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gymuned y Porth ac Ysgol Gynradd yr Hafod ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Eitem 4 ar yr agenda – Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Cynigion i Wella Darpariaeth Addysg yng Nghwm Cynon

- a) Datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Thomas y buddiant personol canlynol mewn perthynas â'r eitem – "Rwyf ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Penderyn ond nid yw fy niddordeb yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad ym mharagraff 12(2) (a)(iii) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau."

Eitem 11 ar yr agenda – Adolygiad o Strwythur Uwch Reoli a Swyddi Rheoli Cysylltiedig y Cyngor – Diweddariad

- Datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan fuddiant personol yn y mater ac arhosodd yn y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod ac yn destun pleidlais:  
"Mae Aelod o'm teulu yn gweithio fel Uwch Swyddog yn yr Awdurdod er nad oes cyfeiriad at y swydd yn yr adroddiad na'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr, 2018."

Gwnaeth y swyddogion canlynol ddatganiad o fuddiant personol ariannol ynglŷn â'r mater yma, a gadawon nhw pan oedd y mater yn cael ei drafod ac yn destun pleidlais:

- Mr C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
- Mr C. Hanagan – Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
- Mr N. Wheeler – Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
- Ms G. Davies – Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
- Mr P. Mee – Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned
- Mr S. Gale – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio
- A Wilkins – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Corfforaethol a Llywodraethol
- Mr D Powell – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Dylunio Corfforaethol a Chynnal a Chadw

- Mr D. James – Pennaeth Materion Adfywio a Ffyniant

Gwnaeth y swyddogion canlynol ddatganiad o fuddiant personol ariannol ynglŷn â'r mater yma, ond arhoson nhw yn y cyfarfod pan oedd y mater yn cael ei drafod er mwyn rhoi cyngor i'r Cabinet:

- Mr C. Bradshaw – Prif Weithredwr
- Mr R. Evans – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

## **105 YMDDIHEURIAD**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol T. Leyshon.

## **106 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Cabinet y byddai'r agenda yn cael ei thrafod mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

## **107 COFNODION**

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2018, yn rhai cywir.

## **108 STRATEGAETH ADNEWYDDU CANOL TREF Y PORTH**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio, adborth i Aelodau a ddaeth i law o'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gafodd ei gynnal ar Strategaeth ddrafft Canol Tref Porth; a'r ymgynghoriad a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth ar y cynigion penodol i adleoli'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghanolfan Oriau Dydd Alec Jones i'r Ganolfan Gymuned newydd ar Blaza'r Porth.

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa am y strategaeth, sy'n amlinellu dull holistig, cydgysylltiedig ac integredig tuag at adfywio canol trefi sy'n ystyried y rôl nodedig sydd gan ganol tref y Porth wrth galon y gymuned a'i lleoliad pwysig ar gyfer gwasanaethau, gwaith, tai a thrafnidiaeth.

Cafodd Aelodau wybod am yr adborth a oedd wedi cael ei dderbyn mewn perthynas â'r ddau ymgynghoriad 6 wythnos a gynhaliwyd. Nodwyd bod adborth wyneb yn wyneb cadarnhaol wedi'i dderbyn a bod 80% o ymatebwyr i holiadur Strategaeth Canol Tref y Porth wedi ymateb gan gytuno y byddai'r amcanion strategol sy wedi'u hamlinellu yn y cynigion yn gwella Canol Tref y Porth. Serch hynny, roedd rhai yn pryderu ynghylch trafferthion parcio cynyddol a'r ffaith y gallai'r amserlen ar gyfer y prosiect darfu ar fywyd yn yr ardal. O safbwynt yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal yn benodol gyda Chanolfan Oriau Dydd Alec Jones, roedd 92% o ddefnyddwyr y gwasanaeth wedi ymateb i'r cwestiwn yma trwy ddweud y byddan nhw'n mynd i'r Ganolfan Gymuned newydd, ac ni ddywedodd unrhyw un na fyddan nhw'n mynd i'r gweithgareddau mwyach. Roedd busnesau lleol wedi nodi pryderon am y ffaith y byddai'r Ganolfan Gymuned yn darparu prydau poeth ac effaith bosibl hyn ar fusnesau'r Stryd Fawr. Dywedodd y swyddogion wrth Aelodau y byddai angen archwilio opsiynau amgen ar gyfer darparu prydau poeth, yn dilyn y pryderon hyn, ceisiadau

defnyddwyr gwasanaeth presennol y ganolfan oriau dydd a'r cyfyngiadau o ganlyniad i ddyluniad Plaza'r Porth.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai yr ymatebion cadarnhaol a oedd wedi cael eu derbyn mewn perthynas â'r ddau ymgynghoriad, gan roi sylwadau ar y nifer fach o bryderon a oedd wedi'u nodi. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am y cyfleoedd ar gyfer datblygu ymhellach yng Nghwm Rhondda gan dynnu sylw at ganolfannau cludiant o ganlyniad i'r metro a chyfleoedd ehangach ar gyfer adfywio.

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau hefyd am yr ymatebion cadarnhaol a oedd wedi cael eu derbyn gan y ddau ymgynghoriad, a chroesawodd y gwaith pellach y byddai'r swyddogion a'r gymuned leol yn ymgymryd ag ef o safbwynt gwerthu bwyd ar y safle. Soniodd yr Arweinydd am y trafodaethau sy'n cael eu cynnal gyda gweithredwyr bysiau a Thrafnidiaeth Cymru ynglŷn â chyfleoedd o ran amserlennu a thocynnau ar y cyd yn y dyfodol.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd mewn perthynas â Strategaeth Canol Tref y Porth a phenderfynwyd hefyd nad oedd angen diwygio'r cynigion mewn unrhyw ffordd.
2. Nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth – roedd hyn mewn perthynas â'r cynigion penodol i adleoli'r gweithgareddau sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghanolfan Oriau Dydd Alec Jones i'r Ganolfan Gymuned newydd ar Blaza'r Porth a phenderfynwyd hefyd nad oedd angen diwygio'r cynigion mewn unrhyw ffordd.
3. Mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd trwy'r ymgynghoriad fel sy wedi'i nodi ym mharagraffau 7.4 a 7.8 yr adroddiad, rhoi awdurdod i Gyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned i ymgymryd ag ymarfer ymgysylltu pellach gyda defnyddwyr y gwasanaeth yng Nghanolfan Oriau Dydd Alec Jones i nodi'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer darparu prydau poeth mewn ffordd amgen, a rhoi'r trefniadau hynny ar waith.
4. Cymeradwyo Strategaeth Canol Tref Porth (yn amodol ar unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r broses ymgysylltu sy wedi'i hamlinellu uchod) a datblygu a chyflwyno cynlluniau pellach fel y maen nhw wedi'u nodi yn y ddogfen.

## **109 CYNIGION I SEFYDLU DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD AR GYFER DATBLYGIAD TAI LLANILID**

Rhoddodd Pennaeth Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif wybod i Aelodau am ganlyniad yr ymgynghoriad diweddar mewn perthynas â chynigion i sefydlu darpariaeth addysg gynradd newydd i wasanaethu'r datblygiad tai newydd yn Llanilid, Llanharan, yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 20 Medi, 2018. Cafodd Aelodau eu cyfeirio at yr ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd wedi'u hamlinellu yn Atodiad B yr adroddiad, ond fe nodwyd hefyd fod yr ymateb i'r broses ymgynghori wedi bod yn gyfyngedig – dim ond 6 o ymatebion a dderbyniwyd. Rhoddodd

Pennaeth Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif wybod i Aelodau nad oedd Estyn wedi gwrthwynebu'r cynnig o gwbl.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes sylwadau ar y nifer siomedig o ymatebion a dderbyniwyd. Gan gyfeirio at y pryderon ynglŷn â mynediad a pharcio, ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai swyddogion Addysg yn gweithio gyda'r datblygwyr i geisio lliniaru'r pryderon hyn yn y dyfodol.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg y cynigion a'r trafodaethau cynnar gyda'r datblygwyr mewn perthynas â mynediad a pharcio i'r ysgol gan nodi fod hyn eisoes yn broblem yn yr ardal.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Ymgynghori (sy wedi'i atodi i'r adroddiad), sy'n cynnwys manylion yr ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori a nodiadau o'r gwahanol gyfarfodydd a gafodd eu cynnal.
2. Yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad sy wedi'u hamlinellu uchod i symud y cynigion yn eu blaen i gam nesaf y broses ymgynghori trwy gytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori yn gyntaf, ac yn ail, gyhoeddi Hysbysiad Statudol priodol bythefnos ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori.

## **110 RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF – CYNIGION I WELLA DARPARIAETH ADDYSG YNG NGHWM CYNON**

Atgoffodd Pennaeth Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif Aelodau am y cynigion y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer Ymgynghori yng nghyfarfod y Cabinet ar 20 Medi. Roedd y rhain yn gynigion i wella a chynyddu darpariaeth addysg yn Hirwaun trwy fuddsoddi mewn ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun; a gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg trwy gynyddu nifer y lleoedd yng Nghwm Cynon Uchaf trwy wneud Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, sydd ar hyn o bryd yn ysgol ddwy iaith, yn Ysgol Gynradd Gymraeg.

Cafodd Aelodau eu cyfeirio at Atodiad B yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynigion. Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriad manwl a oedd wedi cael ei gynnal o 1 Hydref hyd at 31 Rhagfyr, 2018. Cafodd Aelodau wybod am sut y bu pobl yn ymgysylltu â'r ymgynghoriad, gan gynnwys nosweithiau agored yn Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc ar y 19 Rhagfyr a llythyr hwyr a dderbyniwyd gan Vikki Howells AC.

Ar y pwynt yma yn y cyfarfod, siaradodd y Cynghorydd G. Thomas am yr eitem yma ac ymatebodd y swyddogion.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes i'r Aelod lleol am ei adborth a'r swyddogion am gynnal yr ymgynghoriad angenrheidiol. Gwnaeth hi sylwadau am y buddsoddiad cadarnhaol a fyddai'n deillio o'r cynigion, gyda buddsoddiad o £10.4 miliwn trwy Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif ar gyfer adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun.

Croesawodd hi ymateb Estyn i'r cynigion hefyd, a oedd yn dweud y byddan nhw'n cael effaith gadarnhaol ar safon addysg yn yr ardal. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y pryderon a gafodd eu codi yn ystod yr ymgynghoriad mewn perthynas â derbyn disgyblion i'r meithrin a chyfeiriodd at y diwygiad arfaethedig i'r cynnig yma sy wedi'i nodi yn adrannau 2.2 a 2.4 yr adroddiad yn dilyn ystyried y pryderon yma.

Siaradodd yr Arweinydd yn gadarnhaol am y cynigion a'r ffigyrau a'r rhesymau hollbwysig sy wedi'u hamlygu yn yr adroddiad dros fwrw ymlaen â'r cynigion er budd y disgyblion a'r ddarpariaeth addysg sydd ar gael. Eglurodd yr Arweinydd y drefn o safbwynt Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, a chafwyd y cadarnhad canlynol oddi wrth y swyddogion: Caiff disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch (hynny yw, sy'n byw ym mhentref Penderyn a Rhondda Cynon Taf) sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn gludiant am ddim i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun, gan nad yw'r llwybr cerdded yn cael ei ystyried yn un y mae modd ei ddefnyddio.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Ymgynghori (sy wedi'i atodi i'r adroddiad), sy'n cynnwys manylion yr ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori a nodiadau o'r gwahanol gyfarfodydd a gafodd eu cynnal.
2. Nodi bod yr adroddiad ymgynghori yn argymhell diwygio'r cynigion ymgynghori, er mwyn **caniatáu** i ddisgyblion newydd gael eu derbyn i ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn nes y bydd yr ysgol yn newid o ysgol ddwy iaith i ysgol Gymraeg.
3. Bwrw ymlaen â'r cynigion a'r diwygiad at gam nesaf y broses adolygu, yn dilyn ystyried yr ymatebion a nodwyd yn yr adroddiad. Penderfynwyd, yn gyntaf, gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori, ac yn ail, gyhoeddi Hysbysiad Statudol priodol bythefnos ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad.
4. Cynnwys y canlynol fel diwygiadau i'r cynigion:
  - adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun erbyn Medi 2021;
  - newid categori Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o ysgol ddwy iaith i ysgol Gymraeg o Fedi 2021;
  - parhau i ganiatáu derbyn disgyblion newydd i ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn nes y bydd yr ysgol yn newid o ysgol ddwy iaith i ysgol Gymraeg.

**(D.S.** Fel sy wedi'i nodi yng Nghofnod 104, datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Thomas fuddiant personol ynglŷn â'r eitem yma.)

111

## **CYNNIG I AILDREFNU'R DDARPARIAETH O RAN DOSBARTHIAU CYNNAL DYSGU O FEWN RHONDDA CYNON TAF**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Aelodau at yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod iddyn nhw am ganlyniadau'r ymgynghoriad diweddar ar y cynigion i aildrefnu darpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu mewn ysgolion prif-ffrwd yn Rhondda Cynon Taf, ac ail-fuddsoddi'r cyllid er mwyn bodloni anghenion y disgyblion.

Cafodd Aelodau wybod am yr ymatebion niferus i'r ymgynghoriad fel sy wedi'u hamlygu yn yr Adroddiad Ymgynghori (Atodiad A) a chyfeiriwyd at y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a'r ymatebion a roddwyd. Hefyd, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i Aelodau am yr ymateb gan Estyn a oedd yn dweud y byddai'r cynnig, yn eu barn nhw, yn debygol o 'wella'r safonau addysgol presennol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn y sector cyfrwng Saesneg.'

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes am y rhesymeg dros y cynigion oherwydd y cyfraddau uchel o leoedd gwag a lleoedd dros ben a'r cyfle i wella'r ddarpariaeth a pharhad y ddarpariaeth ar safleoedd unigol.

Ar y pwynt yma yn y cyfarfod, siaradodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple am yr eitem.

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau am y cynigion gan ychwanegu fod hwn yn gyfle i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni'r galw ac y byddai lefel y ddarpariaeth yn aros fel y mae. Pwysleisiodd eto, petai unrhyw arbedion yn cael eu gwneud oherwydd y cynigion yma, byddai'r arian yn cael ei ail-fuddsoddi i fodloni anghenion disgyblion.

Daeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes â'r drafodaeth i ben drwy wneud sylwadau ar y cynigion a'r ymateb i'r ymgynghoriad, a chynigiodd ail-ymweld â dau o'r argymhellion sy wedi'u hamlygu yn yr adroddiad (argymhellion 2.3.4 a 2.3.5). Yng ngoleuni'r gwrthwynebiad cadarn i'r cynnig (2.3.5) i symud dosbarth cynnal dysgu cyfnod allweddol 2 ar gyfer disgyblion gydag anhwylderau cyfathrebu o Ysgol Gynradd yr Hafod i Ysgol Gymuned y Porth, a'r ffaith bod y ddarpariaeth bresennol yn llawn, awgrymodd yr Aelod o'r Cabinet na ddylid parhau â'r cynnig yma. Argymhellodd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cyngor yn sefydlu Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Allweddol 2 newydd yn Ysgol Gymuned y Porth fel bod modd rhoi'r cyfle i ddisgyblion fanteisio ar addysg 'drwy'r ysgol' o'r cyfnod sylfaen hyd at gyfnod allweddol 4 ar y safle yma. Nodwyd hefyd fod y Cyngor wedi ymgynghori ar y model yma o'r blaen yn rhan o'r cynnig i sefydlu ysgol 3-16 oed newydd yn Ysgol Gymuned y Porth. Byddai bwrw ymlaen yn y modd yma yn rhoi sefydlogrwydd i ddisgyblion yn yr Hafod ac yn sicrhau bod parhad o ran y ddarpariaeth i ddisgyblion Ysgol Gymuned y Porth.

O ran argymhelliad 2.3.4, awgrymodd yr Aelod o'r Cabinet y dylid bwrw ymlaen gyda'r cynnig i symud Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth o Ysgol Gynradd Pen-rhys i Ysgol Gynradd y Maerdy. Serch hynny, mewn partneriaeth â'r teulu, byddai'r plentyn sy'n dal i ddefnyddio'r Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn cael cynnig pecyn cymorth pwrpasol er mwyn parhau i dderbyn ei addysg o fewn y brif-ffrwd yn Ysgol Gynradd Pen-rhys (petai'r teulu yn dymuno gwneud hyn), cyn mynd ymlaen i'r Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Gynradd Pen-rhys.

#### **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad ymgynghori (sydd wedi'i atodi i'r adroddiad), sy'n cynnwys manylion yr ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori a nodiadau o'r gwahanol gyfarfodydd a gafodd eu

cynnal.

2. Nodi y bydd Rhondda Cynon Taf yn cynnal ei lefel bresennol o fuddsoddiad mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu wrth iddo aildrefnu'r ddarpariaeth bresennol i fynd i'r afael â bylchau.
3. Bwrw ymlaen â'r cynigion canlynol i aildrefnu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu'r brif ffrwd yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) trwy gyhoeddi'r hysbysiadau statudol priodol.
  - a) Creu Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Nant Gwyn
  - b) Creu Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Treorci.
  - c) Ail-ddynodi Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Parc y Darren a dosbarth Arsylwi ac Asesu – Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gynradd Llantrisant yn Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu Asesu ac Ymyriad y Blynnyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol.
  - d) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Caradog a'i symud i Ysgol Gynradd Cwm-bach. Bydd hyn yn creu darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.
  - e) Cau Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Caradog – 8 disgybl yn mynd i leoliad arbenigol yn Ysgol Gynradd Cwm-bach.
  - f) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn – fyddai dim disgyblion yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma.
  - g) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pen-rhys – fyddai dim disgyblion yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma.
  - h) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun – fyddai dim disgyblion yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma.
  - i) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith – fyddai dim disgyblion yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma.
  - j) Cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Heol-



y-Celyn – byddai 2 ddisgybl yn unig yn y dosbarth yn 2019, a thrwy drafod â rhieni'r disgyblion, byddai darpariaeth amgen yn cael ei gynnig iddyn nhw.

4. Peidio â bwrw ymlaen a'r cynigion ym mharagraff 2.3.5 yr adroddiad o ran symud y Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion ag Anhwylderau Cyfathrebu yn Ysgol Gynradd yr Hafod i Ysgol Gymuned y Porth (3-16 oed), gan greu darpariaeth ar draws y cyfnodau, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4. Yn hytrach na hyn, dylid creu Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Allweddol 2 newydd ar gyfer disgyblion ag Anhwylderau Cyfathrebu yn Ysgol Gymuned y Porth fel bod modd i ddisgyblion fanteisio ar addysg 'drwy'r ysgol' o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4 ar y safle yma. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ar y model o'r blaen yn rhan o'r cynnig i sefydlu ysgol 3-16 oed newydd yn Ysgol Gymuned y Porth. Byddai bwrw ymlaen yn y modd yma yn rhoi sefydlogrwydd i ddisgyblion yn yr Hafod ac yn sicrhau bod parhad o ran y ddarpariaeth i ddisgyblion Ysgol Gymuned y Porth.
5. Bwrw ymlaen â'r cynnig ym mharagraff 2.3.4 i symud y Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth o Ysgol Gynradd Pen-rhys i Ysgol Gynradd y Maerdy. Serch hynny, mewn partneriaeth â'r teulu, byddai'r plentyn sy'n dal i ddefnyddio'r Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn cael cynnig pecyn cymorth pwrpasol er mwyn parhau i dderbyn ei addysg o fewn y brif-ffrwd yn Ysgol Gynradd Pen-rhys (petai'r teulu yn dymuno gwneud hyn), cyn mynd ymlaen i'r Dosbarth Cynnal Dysgu – Cyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Gynradd Pen-rhys.

**\*\*** Nodwyd yn y cyfarfod fod yr adroddiad a oedd wedi'i gyflwyno i Aelodau yn cynnwys camgymeriad o ran rhifo yn nilyniant yr argymhellion. Cafwyd cadarnhad y dylai'r cynigion sy'n dod o dan Argymhellion 2.3 redeg o 2.3.1 i 2.3.12, un ar ôl y llall. **\*\***

(D.S. Fel sy wedi'i nodi yng Nghofnod 104, datganodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R. Bevan, G. Caple ac S. Bradwick fuddiant personol mewn perthynas â'r eitem.)

## **112 CANLYNIADAU ARHOLIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 4 A CHYFNOD ALLWEDDOL 5 A CHATEGORïAU YSGOLION UWCHRADD AR GYFER 2018**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant gadarnhad terfynol i Aelodau ynglŷn â chanlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 ar gyfer 2017-18, a Chategoreiddio Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ar gyfer 2018-19.

Cafodd Aelodau eu cynghori ei bod yn bwysig rhoi'r wybodaeth yn ei chyddestun wrth adolygu'r data cymharol, ac ystyried ffactorau sosio-economaidd ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Er nad yw tldi nac amddifadedd yn esgusodion ar gyfer tangyflawni, maen nhw'n ffactorau sy'n dylanwadu ar ddeilliannau addysgol.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr y canlyniadau gan ddod i gasgliad trwy ddweud bod cyflawniad wedi gwella ar draws pob cyfnod allweddol yn y rhan fwyaf o achosion, a bod y canlyniadau yn gyson â'r cyfartaledd Cenedlaethol.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes sylwadau ar y canlyniadau cyflawniad calonogol sydd i'w gweld mewn perthynas â Chyfnod Allweddol 4, gyda Rhondda Cynon Taf yn codi i'r 10fed safle yn Genedlaethol, o'i gymharu â'r 19eg safle (yr isaf erioed). Soniodd hefyd am ddeilliannau Cyfnod Allweddol 5, gan ddweud eu bod yn gyson â'r cyfartaledd Cenedlaethol er eu bod yn sefydlog. O ran categoreiddio ysgolion, gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet sylw ar y cynnydd cadarnhaol yn nifer yr ysgolion cynradd ac uwchradd a oedd wedi'u gosod yn y categori gwyrdd. Daeth yr Aelod o'r Cabinet a'i sylwadau i ben trwy ddweud bod cyflawniad ar draws yr Awdurdod yn gadarnhaol ar y cyfan ac ar y trywydd iawn, gyda'r Awdurdod Lleol a'r Consortiwm yn parhau i gefnogi ysgolion a disgyblion i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl ifainc Rhondda Cynon Taf.

#### **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.
2. Nodi'r camau a gymerwyd hyd yma a'r ymyrraeth a gynlluniwyd yn y dyfodol gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant mewn partneriaeth â Gwasanaethau Canolog a Chonsortiwm Canolog y De i gefnogi ysgolion sydd wedi'u categoreiddio ar hyn o bryd yn ambr a choch.

#### **113 YR ADRODDIAD BLYNYDDOL AR FABWYSIADU – 2017/2018, AC ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETH MABWYSIADU CYDWEITHREDOL Y FRO, Y CYMOEDD, A CHAERDYDD – 2017/18**

Yn unol â deddfwriaeth, cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant Aelodau at ei hadroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet ar gynnydd Gwasanaethau Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd a thrafod yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018. Cyfeiriodd hefyd at Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2017/18.

Cafodd Aelodau wybod fod cyflawniad rhanbarthol wedi gwella, yn benodol o safbwynt nifer y plant sy'n cael eu mabwysiadu, a lleihau'r amser mae'n ei gymryd iddyn nhw gael eu mabwysiadu. Ychwanegodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth ymhellach fod nifer o feysydd angen eu gwella o hyd, gan ddweud bod Cynllun Gwella Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn mynd i'r afael â'r rhain.

Fe wnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Gymraeg sylwadau ar yr adroddiad a'r bwlch sylweddol ledled Cymru mewn perthynas â recriwtio mabwysiadwyr a'r nifer gynyddol o blant sydd angen eu mabwysiadu. Nododd fod penodi Swyddog Marchnata a Recriwtio i'w groesawi, ond dywedodd hefyd fod y broses mabwysiadu, o wneud ymholiadau hyd at leoli'r plentyn, yn cymryd amser maith. Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet y ffaith fod cyflawniad wedi gwella ar y cyfan a daeth a'i sylwadau i ben trwy gyfeirio at y cymorth sydd ar gael ar ôl mabwysiadu i fesur sefydlogrwydd hirdymor y lleoliad, gan sicrhau deilliannau cadarnhaol i'r plentyn

a'r rhieni sy'n mabwysiadu.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys y ddau Adroddiad Blynyddol.
2. Derbyn adroddiadau pellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**114 CYFLWYNO HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG ER MWYN MYND I'R AFAEL Â THIPIO SBWRIEL AR RADDFA FACH**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd wybod i Aelodau am y diwygiadau i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i gynnwys hysbysiad cosb benodedig yn ffordd o fynd i'r afael â throedd tipio anghyfreithlon yn lle dwyn y mater i'r llys. Dywedodd fod y diwygiad yn canolbwyntio ar dipio anghyfreithlon ar raddfa fach – hyd at 4 bag du. Fyddai'r opsiwn yma ddim ar gael mewn achosion sy'n ymwneud â gwastraff masnachol neu beryglus – byddai achosion o'r math yma yn cael eu dwyn i'r llys. Mae'r camau yma wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn osgoi sefyllfa lle mae'r rheini sydd dan amheuaeth o dipio'n anghyfreithiol ar raddfa fach yn gorfod mynd i'r llys.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth y gwelliannau i'r Ddeddf a chynnwys hysbysiad cosb benodedig, gan ddweud y byddai unrhyw arian a fyddai'n cael ei dderbyn trwy Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael ei fuddsoddi yn y gwasanaeth.

Siaradodd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd hefyd am yr effaith y mae tipio anghyfreithlon yn ei chael ar gymunedau'r Fwrdeistref Sirol, a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y swyddog tipio anghyfreithlon pwrpasol a'r maes gwasanaeth i fynd i'r afael â'r broblem.

Anerchodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick y cyfarfod ar y mater yma hefyd.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Pennu swm yr Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer tipio'n anghyfreithlon ar raddfa fach yn £400 heb unrhyw gynllun ar gyfer talu'r swm yn gynnar. Mae'r hawl yma i gyhoeddi hysbysiad cosb benodedig yn ddiwygiad o dan Adran 33z(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**115 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

**PENDERFYNWYD:** "Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**116 ADOLYGIAD O STRWYTHUR UWCH REOLWYR A SWYDDI RHEOLI CYSYLLTIEDIG Y CYNGOR – DIWEDDARIAD**

Derbyniodd Aelodau adroddiad y Prif Weithredwr sy'n cynnwys gwybodaeth

eithriedig ac sy'n ymwneud ag adolygiadau arfaethedig i strwythur swyddi Uwch Reolwyr y Cyngor a swyddi Rheoli Cysylltiedig.

**PENDERFYNWYD:-**

1. Diwygio swydd Pennaeth Priffyrdd a Pheirianeg (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i Gyfarwyddwr Gwasanaeth – Priffyrdd a Pheirianeg (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
2. Newid y teitl swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Priffyrdd a Gofal y Strydoedd (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1) i Gyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1);
3. Newid y teitl swydd Pennaeth Rheoli Eiddo (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2) i Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo Gweithredol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2);
4. Nodi:
  - i) y strwythur diwygiedig ar gyfer y Gyfarwyddiaeth fel sydd i'w gweld yn Atodiad 2 (i) ac (i.v) yn yr adroddiad
  - ii) y bydd y gostyngiad amcangyfrifedig blaenorol yng nghostau blynyddol y rheolwyr ar haenau Uwch Reolwyr a Swyddi Rheoli Cysylltiedig yn gostwng o £404,604 (gan gynnwys argostau) i £392,240 (gan gynnwys argostau) oherwydd y newidiadau yma.
5. Y bydd cyfarwyddiaeth Cwmni Gwaredu Gwastraff Cwm Cynon (sy'n masnachu fel Amgen Cymru) a'r parti sy'n rheoli Amgen Rhondda yn cael ei haildrefnu i ddod yn rhan o waith y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella;
6. Y bydd cyfarwyddiaeth CSC Foundry Ltd. yn cael ei haildrefnu i ddod yn rhan o waith y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella;
7. Mewn sefyllfaoedd lle nad oes modd i'r Cyfarwyddwr penodedig fynd i Gyfarfodydd Bwrdd Foundry CSC, bydd dirprwy penodedig yn mynd yn ei le, a bydd y cyfrifoldeb yma yn cwmpo i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol.

**(D.S.** Fel sydd wedi'i nodi yn y Cofnodion, darparodd nifer o Swyddogion Ddatganiadau o Fuddiannau mewn perthynas â'r eitem yma, a gadawon nhw'r cyfarfod pan oedd y mater yn cael ei drafod ac yn destun pleidlais.)

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.20 pm**

**Cllr A Morgan  
Cadeirydd.**